

## ELLIS, THOMAS PETER (1873 - 1936), barnwr I.C.S. (h.y. gwasanaeth gwladol yr India), awdurdod ar gyfreithiau arferiadol y Punjab a chyfreithiau Cymru yn y Canol Oesoedd

**Enw:** Thomas Peter Ellis

**Dyddiad geni:** 1873

**Dyddiad marw:** 1936

**Priod:** Hilda Ellis (née Broadway)

**Priod:** Rosetta Ellis (née McAlister)

**Rhiant:** Mary Ellis (née Lewis)

**Rhiant:** Peter Ellis

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** barnwr I.C.S. (h.y. gwasanaeth gwladol yr India), awdurdod ar gyfreithiau arferiadol y Punjab a chyfreithiau Cymru yn y Canol Oesoedd

**Maes gweithgaredd:** Cyfraith; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

**Awdur:** Stephen Joseph Williams

Ganwyd 4 Mehefin 1873 yn Wrecsam, mab Peter Ellis a Mary (Lewis). Bu farw ei dad pan oedd ef yn ifanc iawn, a threuliodd fflynyddoedd ei febyd gyda'i fam a'i theulu hithau ar fferm yn ymyl Glyndyfrdwy. Addysgwyd ef yn yr 'High School' yng Nghroesoswallt ac yng Ngholeg Lincoln, Rhydychen, lle y daeth yn edmygydd o (Syr) Owen M. Edwards. Aeth i'r India ac enillodd glod yn fuan; daethpwyd i'w ystyried yn un o'r swyddogion barn galluocaf yng ngwasanaeth suful yr India yn ystod 20 mlynedd cyntaf yr 20fed ganrif. Yn yr India priododd Rosetta McAlister, ond bu hi farw yn 1912, gan adael mab a merch iddo ar ei hôl; yn 1915 priododd â Hilda Broadway.

Fel barnwr rhanbarth a sesiwn yn y Punjab enillodd Ellis wybodaeth ddihafal o gyfreithiau arferiadol y wlad honno. Yr oedd yn aelod o gyngor deddfwriaeth y Punjab, ac yn ystod y rhyfel byd cyntaf daeth yn gofiadur y gyfraith (twrnai cyffredinol) i Lywodraeth y Punjab ac yn llywydd y tribiwsllys er amddiffyn yr India yn Lahore. Trwy 'wrthryfel arfog' Ebrill 1919 y cafodd Ellis ei orchwyllion mwyaf llafurus, fel cyfarwyddwr ar faterion cyfraith filwrol, ac fel lluniwr yr amryfal ordinhadau a hyfforddiadau er cyfarwyddo swyddogion y gyfraith a'r fyddin. Canmolwyd ef yn uchel yn yr argyfwng hwn yn rhinwedd ei bwyll a diogelwch ei farn. Fel eraill o swyddogion y gyfraith, ystyriai Ellis fod rhoi gollyngdod (fel y gwnaed wedyn) i gynifer o garcharorion a gawsid yn euog o droseddau mawr yn sen ar weithgarwch y comisiynau cyfraith filwrol, ac am hyn o reswm, fe dybir, fe wrthododd ef y cynnig i'w benodi'n farwr yr uchel lys yn Lahore.

Yn 1921 dychwelodd i fyw yng Nghymru, ymsefydlodd yn Lllysmynach, Dolgellau, ac am y 15 mlynedd olaf o'i oes rhoes ei sylw i'w ddi-ddordebau Cymreig, nas anghofiasai o gwbl yn ystod ei waith yn yr India. Parhaodd yn ddyfal yn ei waith ymchwil, a chymhwysodd yn fedrus iawn ei brofiad o'r 'gyfundrefn lwythol,' fel y gweithreda yn y Punjab, i ddehongli'r bywyd llwythol yng Nghymru yn y Canol Oesoedd. Rhywbryd wedi iddo ddychwelyd i Gymru ymunodd â'r Eglwys Rufeinig, ac yn rhan olaf ei fywyd rhoes lawer o amser i astudio hanes Catholiaeth yng Nghymru. Bu farw yn y Royal Southern Hospital, Lerpwl, 7 Gorffennaf 1936.

Ymhlith ei gyhoeddiadau yn yr India ceir *The Ivory Industry in the Punjab*, *The Law of Pre-emption in the Punjab*, *A Judge's Note-Book*, *Notes on Punjab Custom*, (golygydd) *Rattigan's Punjab Customary Law* (8fed arg.).

Ei brif gyhoeddiadau yng Nghymru yw *Welsh Tribal Law and Custom in the Middle Ages*, *The Mabinogion - a New Translation* (gyda John Lloyd), *The Story of Two Parishes (Dolgelley and Llanelltyd)*, *The First Extent of Bromfield and Yale*, *The Tragedy of Cymmer*, *The Catholic Church in Wales under the Roman Empire*, *The Catholic Martyrs of Wales 1535-1680*, *The Welsh Benedictines of the Terror, Dreams and Memories* (wedi ei farw); llawer o ysgrifau ac erthyglau mewn cyfnodolion, etc., ac yn enwedig yn *The Welsh Outlook*. Y mae hefyd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru gopi o waith nas cyhoeddwyd, ' *History of the Church in Wales*, ' yn ddwy gyfrol.

### Awdur

Yr Athro Stephen Joseph Williams, (1896 - 1992)

### Ffynonellau

Gwybodaeth gan ei weddw a'i ferch

*Who's who in Wales*, 1937

*The Times*, 14 Gorffennaf 1936

*Merioneth County Times*, 11 Gorffennaf 1936

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 59469888

Wikidata: Q18734926

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn ddiwydwr gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government